Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU, DOGFENNU

# Gwirfoddoli (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2022 i Mawrth 2023

Mae'r adroddiad yn edrych ar bobl sy'n gwirfoddoli a'r sefydliadau y maent yn gwirfoddoli â nhw rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 30 Tachwedd 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 30 Tachwedd 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwirfoddoli-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cyflwyniad

Prif ganfyddiadau

Gwirfoddolwyr

Math o wirfoddoli

Amser gwirfoddoli

Y cyd-destun polisi

Gwybodaeth am ansawdd

Manylion cyswll



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwirfoddoli-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyflwyniad

Yn 2022 i 2023, gofynnwyd i bobl fel rhan o'r Arolwg Cenedlaethol a oeddent yn rhoi o'u hamser am ddim (hynny yw, yn 'gwirfoddoli') i unrhyw glybiau neu sefydliadau.

## Prif ganfyddiadau

Bu 30% o bobl yn gwirfoddoli yn 2022 i 2023, i fyny o 26% yn 2019 i 2020.

Mae cysylltiad annibynnol rhwng y ffactorau canlynol a bod yn fwy tebygol o wirfoddoli:

- bod yn wryw
- meddu ar gymwysterau addysgol lefelau uwch
- teimlo bod bywyd yn werth chweil
- bod yn briod
- cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith yr wythnos neu ragor
- defnyddio'r rhyngrwyd
- bod â ffydd grefyddol
- byw mewn ardal wledig
- byw mewn ardal â llai o amddifadedd

## Gwirfoddolwyr

Wrth reoli ffactorau eraill (caiff hyn ei egluro yn yr **Adroddiad technegol atchweliad**), roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng y nodweddion canlynol a bod yn wirfoddolwr.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwirfoddoli-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.


## Rhyw

Roedd cyfran uwch o ddynion yn gwirfoddoli o gymharu â menywod, gyda 32% o ddynion yn gwirfoddoli a 27% o fenywod.

## Addysg

Roedd pobl â chymwysterau addysgol lefelau uwch yn fwy tebygol o wirfoddoli. Bu 37% o bobl â’r lefel uchaf o gymwysterau addysg yn gwirfoddoli, o gymharu â 18% o bobl heb unrhyw gymwysterau.

### Ffigur 1: Pobl sy'n gwirfoddoli, yn ôl eu cymhwyster uchaf ac yn ôl blwyddyn




Disgrifiad o Ffigur 1: Siart far fertigol sy'n cymharu'r pum lefel o gymhwyster a allai fod gan wirfoddolwyr yn 2022 i 2023. Addysg uwch (lefel 4+) oedd y


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwirfoddoli-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cymhwyster mwyaf cyffredin ymysg gwirfoddolwyr, gyda 37% o bobl. Mae hyn yn arwyddocaol uwch na phob lefel arall o gymwysterau.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2022 i 2023

### Teimlo bod bywyd yn werth chweil

Bu cyfran y bobl a fu'n gwirfoddoli yn cynyddu gyda'r teimlad bod bywyd yn werth chweil. Gofynnwyd i bobl roi sgôr allan o 10 yn nodi a oeddent yn cytuno â'r syniad bod 'y pethau rydych chi'n eu gwneud yn eich bywyd yn werth chweil'. Roedd 35% o bobl a oedd yn teimlo bod bywyd yn hynod werth chweil (yn rhoi sgôr o 9 neu 10) yn gwirfoddoli, o gymharu â 14% o bobl nad oeddent yn teimlo'n gryf fod bywyd yn werth chweil (yn rhoi sgôr o 0 i 4). Mae'n bosibl bod perthynas ddwyffordd rhwng y ffactorau hyn. Gall gwirfoddoli wneud i rywun deimlo'n gryfach fod pethau yn ei fywyd yn werth chweil, neu gall rhywun sy'n teimlo bod pethau'n werth chweil hefyd fod yn fwy tueddol o roi o'i amser i wirfoddoli.

### Statws priodasol

Roedd cyfran y bobl a fu'n gwirfoddoli yn uwch ymhlith pobl briod o gymharu â phobl sengl. Bu 34% o bobl briod yn gwirfoddoli o gymharu â 25% o bobl sengl.

### Cymryd rhan mewn chwaraeon

Roedd 35% o bobl a fu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon o leiaf 3 gwaith yr wythnos yn wirfoddolwyr yn 2022 i 2023, sef yr un gyfran ag yn 2019 i 2020. Roedd hyn yn cymharu â 26% o bobl a fu'n gwirfoddoli nad oeddent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon i'r graddau hyn. Roedd 12% o bobl a fu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon o leiaf 3 gwaith yr


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwirfoddoli-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

wythnos hefyd yn gwirfoddoli mewn clwb chwaraeon. Mae hyn yn debyg i 2019 i 2020.

## Defnydd o'r rhyngrwyd

Roedd cyfran y bobl a fu'n gwirfoddoli yn uwch ymhlith pobl a oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd: roedd 31% o bobl a oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd yn gwirfoddoli o gymharu â 17% o bobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd.

## Ffigur 2: Pobl sy'n gwirfoddoli, yn ôl cyfran y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, yn defnyddio'r rhyngrwyd ac yn teimlo bod pethau mewn bywyd yn werth chweil




Disgrifiad o Ffigur 2: Siart far fertigol sy'n cymharu cyfran y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith yr wythnos neu ragor, sy'n dweud eu bod yn teimlo'n gryf iawn bod pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil ac sy'n defnyddio'r rhyngrwyd, fel y gofynnwyd yn arolwg 2022 i 2023, â chanlyniadau 2019 i 20. Roedd 35% o bobl a fu'n gwirfoddoli yn 2022 i 2023 yn teimlo'n gryf

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwirfoddoli-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

bod pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil, o gymharu â 30% yn 2019 i 2020. Cyfran y bobl a fu'n defnyddio'r rhyngrwyd ac yn gwirfoddoli oedd 31% yn 2022 i 2023 o gymharu â 27% yn 2019 i 2020.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2019 i 2020 a 2022 i 2023

### Crefydd

Roedd pobl a oedd â ffydd grefyddol yn fwy tebygol o wirfoddoli na phobl heb ffydd. Roedd 35% o bobl â chrefydd yn wirfoddolwyr, o gymharu â 25% o bobl heb ffydd grefyddol. Y cyfrannau hyn oedd 32% o gymharu â 21%, yn y drefn honno, yn 2019 i 2020. Roedd XX% o bobl â ffydd grefyddol hefyd yn gwirfoddoli gyda grŵp crefyddol.

### MALIC

Roedd cyfran y bobl a fu'n gwirfoddoli yn uwch ymhlith pobl sy'n byw mewn ardaloedd â llai o amddifadedd. Bu 33% o bobl yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf yn gwirfoddoli, o gymharu â 25% o bobl yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf.

### Ardal

Gwelwyd bod pobl a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o wirfoddoli na phobl a oedd yn byw mewn ardaloedd trefol: roedd 35% o bobl mewn ardaloedd gwledig yn gwirfoddoli, o gymharu â 27% mewn ardaloedd trefol.

Ni welwyd gwahaniaeth arwyddocaol o ran gwirfoddoli rhwng grwpiau oedran, cyfeiriadedd rhywiol gwahanol, na grwpiau ethnig gwahanol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwirfoddoli-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Math o wirfoddoli


Bu pobl yn gwirfoddoli mewn nifer o wahanol sefydliadau (Ffigur 3). Bu'r dosbarthiad o ddynion a menywod a fu'n gwirfoddoli yn y sefydliadau hyn yn 2022 i 2023 yn debyg i'r dosbarthiad a welwyd yn 2019 i 2020. Roedd rhyw yn ffactor pwysig mewn cyfraddau gwirfoddoli ac, yn ogystal, roedd rhai gwahaniaethau o ran rhyw yn y math o sefydliad lle mae pobl yn dewis gwirfoddoli. Er nad oedd rhai’n arwyddocaol wahanol, yn fwyaf nodedig, roedd cyfran uwch o ddynion na menywod yn gwirfoddoli mewn clybiau chwaraeon.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwirfoddoli-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 3: Y gyfran sy'n gwirfoddoli yn ôl rhyw a math o sefydliad




Disgrifiad o Ffigur 3: Siart far lorweddol sy'n cymharu deg math gwahanol o sefydliad y gwirfoddolodd pobl ynddynt yn arolwg 2022 i 2023, yn ôl rhyw. Y sefydliad mwyaf cyffredin i ddynion wirfoddoli ynddo oedd clwb chwaraeon, gyda chyfran o 11%. Roedd hyn yn sylweddol is i fenywod, gyda chyfran o 4%. Y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwirfoddoli-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.


math o sefydliad mwyaf cyffredin i fenywod wirfoddoli ynddo oedd sefydliadau elusennol, gyda chyfran o 10%.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2022 i 2023

## Amser gwirfoddoli

Gwelwyd bod pobl, yn fwyaf cyffredin, yn gwirfoddoli am 10 awr neu lai yr wythnos (69% o wirfoddolwyr). Roedd cyfran y bobl a oedd yn gwirfoddoli am 11 i 20 awr yn llawer is (18%). Roedd cyfran y bobl a oedd yn gwirfoddoli am 21 i 30 awr, 31 i 40 awr neu fwy na 40 awr yn llawer is eto. Bach iawn oedd y gwahaniaeth rhwng dynion a menywod o ran nifer yr oriau a dreuliwyd yn gwirfoddoli.

### Ffigur 4: Cyfran y gwirfoddolwyr yn ôl nifer yr oriau yn gwirfoddoli mewn wythnos




Disgrifiad o Ffigur 4: Siart far lorweddol sy'n dangos gwahanol gyfnodau amser

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwirfoddoli-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

o wirfoddoli mewn oriau bob wythnos. Roedd 69% o bobl a fu'n gwirfoddoli yn gwneud hynny am 10 awr neu lai yr wythnos. Roedd 4% o bobl yn gwirfoddoli am fwy na 40 awr yr wythnos. Gwelwyd gostyngiad yng nghyfran y bobl a fu'n gwirfoddoli wrth i nifer yr oriau yr wythnos gynyddu.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2022 i 23

# Y cyd-destun polisi

Mae **Cynllun Trydydd Sector** Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo buddiannau mudiadau gwirfoddol ac yn diffinio pedair thema drawsbynciol sy'n sail i weithgarwch yn y sector, sef: datblygu cynaliadwy, yr iaith Gymraeg, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a threchu tlodi. Yn deillio o'r cynllun, mae **Polisi Gwirfoddoli: cefnogi cymunedau, newid bywydau** Llywodraeth Cymru, sy'n nodi tri diben allweddol: gwella cyfleoedd gwirfoddoli i bobl o bob oed ac o bob rhan o gymdeithas; helpu gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn fwy effeithiol, gan gynnwys drwy hyfforddiant priodol; codi statws gwirfoddoli a gwella ei ddelwedd. Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn ystyried gwirfoddoli'n agwedd bwysig ar gymunedau cryf, y dylid ei hyrwyddo a'i gefnogi.

I adlewyrchu’r newid yn natur gwirfoddoli ers datblygu’r polisi gwirfoddoli presennol, gwnaeth Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip (ar y 23 Mai 2023) Ddatganiad Llafar yn amlinellu datblygiad Dynesiad Newydd at Wirfoddoli yng Nghymru i ddeall a chefnogi dyfodol gwirfoddoli yng Nghymru yn well. Bydd y Dynesiad yn un sy’n addas ar gyfer ein cenedlaethau o wirfoddolwyr yn y dyfodol, gan gynnwys y sectorau gwirfoddol, cyhoeddus a phreifat – gan helpu i greu amgylchedd lle mae gwirfoddoli’n gynaliadwy, yn gryf ac yn llewyrchus. Mae Gwaith i ddatblygu'r Dynesiad Newydd hwn wedi dechrau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwirfoddoli-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gwybodaeth am ansawdd

Arolwg hapsampl, parhaus ar raddfa fawr yw **Arolwg Cenedlaethol Cymru**, sy'n cynnwys pobl ledled Cymru. Caiff cyfeiriadau eu dewis ar hap, a chaiff gwahoddiadau eu hanfon drwy'r post yn gofyn am rif ffôn ar gyfer y cyfeiriad. Gellir darparu'r rhif ffôn drwy borth ar-lein, drwy linell ymholiadau dros y ffôn neu'n uniongyrchol i rif ffôn symudol y cyfwelydd ar gyfer yr achos hwnnw. Os na chaiff rhif ffôn ei ddarparu, mae'n bosibl y bydd cyfwelydd yn ymweld â'r cyfeiriad ac yn gofyn am rif ffôn. Ar ôl cael rhif ffôn, bydd y cyfwelydd yn defnyddio dull dewis ar hap i ddewis un oedolyn yn y cyfeiriad i gymryd rhan yn yr arolwg. Cynhelir y rhan gyntaf o'r arolwg drwy gyfweliad dros y ffôn; cynhelir yr ail ran ar-lein (oni fydd yr ymatebydd yn amharod i'w chwblhau ar-lein neu'n methu â gwneud hynny, ac os felly, caiff y cwestiynau hyn hefyd eu holi dros y ffôn).

Mae siartiau manwl a thablau canlyniadau ar gael yn ein **dangosydd canlyniadau** rhyngweithiol. I gael gwybodaeth am gasglu’r data a’r fethodoleg, gweler yr **Adroddiad ansawdd** a'r **Adroddiad technegol**.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae **Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig** wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007, gan ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

Golyga statws Ystadegau Gwladol fod yr ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwirfoddoli-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn pryderu a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan gaiff y safonau eu hadfer.

Cadarnhawyd y byddai'r ystadegau hyn yn parhau i gael eu dynodi'n Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2020 yn dilyn gwiriad cydymffurfiaeth gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (**llythyr cadarnhau**). Cafodd yr ystadegau hyn eu hasesu'n llawn yn erbyn y Cod Ymarfer ddiwethaf (**adroddiad llawn**) yn 2013.

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, er enghraifft drwy:

- darparu dadansoddiadau manylach yn y **dangosydd canlyniadau**
- diweddaru pynciau'r arolwg yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion polisi sy'n newid
- parhau i gynnal dadansoddiad atchweliad fel rhan safonol o'n hallbynnau i helpu defnyddwyr i ddeall cyfraniad ffactorau penodol at ganlyniadau o ddiddordeb

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru, sef sicrhau Cymru fwy cyfartal, llewyrchus,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwirfoddoli-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cydnerth, iach a chyfrifol yn fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae rhaid eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. Cafodd y 50 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym mis Mawrth 2016. Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth ar gyfer **15 o'r 50 o ddangosyddion**.

Rhagor o wybodaeth am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol a gallai byrddau gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio mewn perthynas â'u hasesiadau a chynlluniau llesiant lleol.

# Manylion cyswll

Timau arolygon
Ebost: arolygon@llyw.cymru

Cyfryngau: 0300 025 8099

SB 42/2023

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwirfoddoli-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwirfoddoli-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.